# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb ar ôl Ysgol Princess Road**

**Warehouse Building**
**Back Cadwgan Road**
**6 Princess Road**
**Hen Golwyn**
**LL29 9PS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 28 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb ar ôl Ysgol Princess Road yn gweithredu o adeilad sydd wedi ei addasu i'r diben yng nghefn Ysgol Feithrin Princess Road. Mae wedi ei leoli mewn ardal breswyl yn Hen Golwyn, Conwy ac wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i hyd at 70 o blant o dan 12 mlwydd oed. Mae'r gwasanaeth ar agor o 7.30am dydd Llun – dydd Gwener ar gyfer y clwb brecwast, ac o ddiwedd y diwrnod ysgol tan 6pm. Mae'r clwb ar agor drwy'r dydd 7.30am – 6pm yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r gwasanaeth ar gau ar wyliau'r banc ac am wythnos dros y Nadolig.
Y sefydliad cofrestredig yw Princess Road After School Club Ltd a Ms Pauline Wilson yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig ar ran y cwmni hwnnw. Yr unigolyn â gofal am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yw Matthew Wilson. Darperir y gwasanaeth yn y Saesneg ac nid yw'n darparu cynnig gweithredol y Gymraeg ar hyn o bryd, sy'n golygu nad oes modd i'r rhieni na'r plant ddefnyddio'r gwasanaeth na gweld ei bolisïau drwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn am hynny.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Caiff llesiant y plant ei feithrin, rhoddir dewis iddynt ac maent yn cael mynegi sut y byddai orau ganddynt dreulio eu hamser, yn gwneud ffrindiau ac yn mwynhau. Maent yn fodlon, wedi ymgartrefu ac yn gyfarwydd â'r cyfleusterau a'r drefn, gan fod llawer o'r plant wedi mynychu ers blynyddoedd lawer. Gofelir am y plant gan aelodau staff cymwysedig sy'n eu hadnabod yn dda, yn deall sut i'w cadw'n iach ac yn ddiogel ac sy'n cynnig dewisiadau addas iddynt am eu bod yn gwybod eu hoffterau. Mae'r plant yn cael yr amgylchedd yn ddymunol, gyda digon i'w difyrru'n gadarnhaol a rhoddir cyfleoedd rheolaidd iddynt ddatblygu sgiliau a bod yn actif yn gorfforol. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu gwasanaeth ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gyflawni hyn; maent yn deall anghenion y plant sy'n mynychu ac yn rhoi darpariaeth ar waith i fodloni'r anghenion hyn yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r adroddiad Ansawdd Gofal wedi ei ysgrifennu ar ffurf newydd ac mae'r meysydd y mae angen eu datblygu wedi eu dynodi'n glir, sy'n golygu bod yr arweinwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar feysydd i'w gwella y dymunir eu blaenoriaethu.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â buddsoddi mewn llestri bwrdd mwy cynaliadwy a hybu sgiliau'r plant o ganlyniad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn penderfynu sut y maent yn treulio eu hamser. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac oherwydd hyn mae modd iddynt fynegi eu hunain yn rhydd. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion, yn gwneud ffrindiau, yn cymdeithasu ac yn rhannu profiadau. Maent yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau a theganau sydd ar gael iddynt ac maent yn eu trin yn barchus. Maent yn dysgu ysgwyddo cyfrifoldeb a gwneud dewisiadau annibynnol drwy strwythur y gwasanaeth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?

Mae llais y plant yn greiddiol i'r gwaith o gyflawni'r gwasanaeth hwn.

Gwelsom fod rhai plant yn brysur yn chwarae pan wnaethom gyrraedd ac roedd eraill yn gorffen eu byrbrydau. Roeddent yn symud yn rhydd o gwmpas bob rhan o'r lleoliad ac yn dewis lle i chwarae neu weithgaredd a oedd yn apelio atynt yn bersonol. Cyflwynwyd y plant i ni gan yr aelodau staff ac roeddent yn hapus i ymgysylltu â ni a sgwrsio am yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn y gwasanaeth ac am  yr hyn yr oeddent yn ei hoffi ynglŷn â'r gwasanaeth. Roedd y plant hefyd yn hyderus ac yn hapus i ddweud wrthym pa nodweddion y byddent yn eu newid er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach. Er enghraifft, byddai'r plant yn hoffi cael disgos rheolaidd ar nos Wener. Roedd yn braf clywed y plant yn sgwrsio gyda'r aelodau staff am eu diwrnod ac yn mynegi eu teimladau.

Caiff y plant a'u barn barch mawr.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae gan y plant berthynas annwyl gyda'r aelodau staff sy'n eu hadnabod yn dda ac yn gyson.

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yng nghwmni'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Roeddent yn gyfarwydd â'r tîm staff a oedd yn gofalu amdanynt gan fod llawer o'r plant wedi mynychu'r gwasanaeth am flynyddoedd lawer. Roedd y plant yn elwa ar staff a oedd yn eu hadnabod nhw a'u hoffterau'n dda gan fod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u diwallu yn briodol. Roedd y plant yn hapus i fynd at yr aelodau staff i ofyn cwestiynau ac i fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd y plant wrthym at bwy y byddent yn mynd pe byddai ganddynt unrhyw bryderon ac roeddent yn hyderus y byddai'r aelodau staff yn gwrando arnynt. Roedd y plant yn gallu cymdeithasu â phlant o ysgolion eraill ac yn gwneud ffrindiau newydd o ganlyniad i hynny. Roeddent yn gyfforddus, yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth.

Mae'r plant yn cael hwyl gyda'i gilydd ac yn gwerthfawrogi cwmni ei gilydd.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu rheoli eu hymddygiad yn dda, yn aros eu tro ac yn sensitif i emosiynau pobl eraill.

Gwelwyd bod y plant yn chwarae'n dda, yn aros eu tro am y consol gemau ac yn chwarae pêl-droed gyda'i gilydd. Roeddent yn gwybod rheolau'r gwasanaeth ac yn cadw atynt yn barchus. Roedd y plant yn dangos parch tuag at yr aelodau staff ac yn gwrando arnynt. Roeddent yn diolch i'r aelodau staff yn gwrtais ar ôl cael byrbryd, ac ar ddiwedd yr amser byrbryd roedd yn amlwg fod y plant yn cydweithredu'n dda gan eu bod wedi tawelu'n barchus er mwyn gwrando ar yr aelodau staff. Roedd y plant yn trin yr offer yn barchus ac yn eu defnyddio i'r diben y'u bwriedir, ac yn gofyn am adnoddau eraill ac offer eraill yn ôl yr angen.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n llwyddiannus â'i gilydd ac â'r aelodau staff.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau, yr adnoddau a'r offer sydd ar gael iddynt ac yn mwynhau.

Roedd y plant yn elwa ar gael cyfnodau estynedig o chwarae di-dor a gychwynnwyd gan y plant eu hunain, gan fod modd iddynt reoli strwythur eu gemau a dechrau ysgwyddo cyfrifoldeb dros osod y rheolau a'r terfynau'n annibynnol. Roedd rhai o'r plant yn manteisio ar y tywydd braf drwy chwarae allan gyda chylchynnau hwla a rhaffau sgipio tra oedd eraill yn dewis bod tu mewn yn gwneud gweithgareddau distawach fel chwarae gyda doliau Barbie neu liwio. Roedd y plant i gyd yn cael hyd i rywbeth a oedd o ddiddordeb iddynt ac roedd y gweithgaredd yn cynnal eu diddordeb am gyfnod priodol o amser cyn iddynt ddod o hyd i rywbeth newydd a oedd yn apelio atynt. Roedd y plant yn hapus i ddweud wrthym am eu hoff weithgareddau ac roeddent yn mynegi cyffro ynglŷn â mynychu'r gwasanaeth yn ystod y gwyliau ysgol, gan sgwrsio am rai o'r gweithgareddau yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod gwyliau blaenorol, er enghraifft, tripiau i'r parc lleol.

Mae'r plant yn llawn cyffro a brwdfrydedd ynglŷn â chwarae yn y gwasanaeth hwn.

### 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu'n dda yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn gorfforol ac yn dechrau cynyddu eu hannibyniaeth.

Roedd y plant yn ddiogel ac yn gwybod gyda phwy i siarad ynglŷn ag unrhyw bryderon. Roeddent yn datblygu cyfeillgarwch ystyrlon ac yn ddigon hyderus i ymddiried yn ei gilydd a chwilio am gefnogaeth gan ei gilydd. Er enghraifft, clywsom blentyn a oedd yn mynychu'r ysgol uwchradd yn cynnig sicrwydd a chyngor i'w gyfaill a fyddai'n cychwyn yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi. Roedd y ddau blentyn yn gofyn ac yn ateb cwestiynau ei gilydd, gan gymdeithasu yn ystod amser byrbryd. Roedd yn braf clywed plant yn sgwrsio'n gymdeithasol yn ystod amser byrbryd ac yn rhannu diddordebau cyffredin. Mae'r plant yn

cael y cyfle i ddatblygu'n gorfforol drwy'r flwyddyn, gan fod offer ar gael iddynt tu mewn a thu allan sy'n annog gweithgarwch corfforol a chwarae cydweithredol ac yn caniatáu iddynt ddatblygu.

Rhoddir cyfleoedd ac adnoddau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu cyfeillgarwch yn effeithiol, i ddysgu a dod yn fwy annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan yr aelodau staff ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'r plant yn iach a diogel. Maent yn deall y disgwyliadau o ran ymddygiad ac maent yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad yn gyson er lles y plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant ac maent yn sicrhau bod ethos cynhwysol yn bodoli fel bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff wedi ennill cymwysterau a dilyn hyfforddiant er mwyn gofalu am les y plant ac maent yn gwybod sut i'w cadw'n ddiogel ac yn iach.

Roedd holl aelodau staff y gwasanaeth wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, amddiffyn plant a hylendid bwyd sylfaenol yn ddiweddar, ac roedd gan yr aelodau staff y buom yn siarad â nhw ddealltwriaeth dda ynglŷn â sut i gadw'r plant yn ddiogel. Roedd gan yr aelodau staff ddealltwriaeth fanwl o'r plant yr oeddent yn gofalu amdanynt ac roeddent yn gwybod am eu hanghenion a'u gofynion meddygol, gan ddisgrifio rhai o'r gweithdrefnau a ddilynir yn fedrus a dangos ymwybyddiaeth dda o'r risgiau ychwanegol a allai godi yn sgil rhai cyflyrau iechyd penodol. Gwelsom fod yr aelodau staff wedi bod wrthi'n ddyfal yn llenwi ffurflenni damweiniau ac roeddent yn gwybod lle roedd yr offer cymorth cyntaf yn cael ei storio pe codai'r angen. Roedd yr aelodau staff yn sicrhau bod y plant yn gorfforol weithgar bob dydd drwy gynllunio a goruchwylio gweithgareddau yn y man chwarae tu allan a'r '*parth'* chwarae meddal tu mewn a oedd yn apelio at y plant. Dilynodd yr aelodau staff y gweithdrefnau ar waith er mwyn atal croes-heintio. Roedd yr aelodau staff i gyd yn gwisgo ffedogau wrth roi bwyd y plant iddynt ac roeddent yn sicrhau bod y byrddau'n cael eu glanhau'n briodol.

Mae'r aelodau staff yn rhoi gofal diogel i blant sydd yn meithrin eu datblygiad.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r aelodau staff yn cydnabod y plant fel unigolion ac yn eu galluogi i ddysgu sgiliau newydd ac ymddwyn mewn ffordd naturiol.

Roedd gan yr aelodau staff berthynas gadarnhaol â'r plant ac roedd parch y staff a'r plant tuag at ei gilydd yn amlwg. Nid oedd llawer o angen i'r aelodau staff reoli ymddygiad y plant gan eu bod yn ymddwyn yn dda ac yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd. Roedd yr aelodau staff yn gweithredu mewn dull cyson wrth drin y plant ac yn gweithio fel tîm er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn y rheolau. Roedd yr aelodau staff wedi arddangos y rheolau i bawb ar ddrws y gwasanaeth, er enghraifft 'Aros eich tro' a 'Cadwch eich dwylo a'ch traed i chi eich hunain'. Dywedodd yr aelodau staff wrthym fod y plant yn gwybod y rheolau'n dda, gan eu bod yn cyfeirio atynt eu hunain ac yn atgoffa eu ffrindiau i'w dilyn. Roedd yr aelodau staff yn

enghraifft o ymddygiad cadarnhaol, yn siarad â'r plant, yn dangos diddordeb gwirioneddol ynddynt fel unigolion ac yn bod yn enghraifft o sut i sefydlu cyfeillgarwch.

Mae'r aelodau staff yn frwdfrydig ac yn llawn ysgogiad er mwyn sicrhau bod y plant yn manteisio i'r eithaf ar eu hamser yn y gwasanaeth.

## 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae'r aelodau staff yn deall sut mae'r plant yn datblygu, yn gwerthfawrogi cyfraniad pob plentyn ac yn deall eu hanghenion unigol.

Roedd yr aelodau staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod y ffordd orau i'w cynorthwyo. Roeddent yn siarad yn wybodus ynglŷn â'r plant yn eu gofal ac am y ffordd yr oeddent yn darparu ar eu cyfer. Er enghraifft, disgrifiodd y staff hoffterau un plentyn o ran bwyd a'r ffordd yr oedd wedi cynnig sicrwydd fod dewis arall ar gael. Drwy brofiad, roedd gan yr aelodau staff ddealltwriaeth glir o amrywiol anghenion ychwanegol a'r ffordd orau i gefnogi'r plant hynny a oedd ag anghenion ychwanegol. Roeddent yn cydnabod bod angen i'r plant i gyd fod yn annibynnol a gwneud ffrindiau.

Roedd yr aelodau staff yn gweithredu'r egwyddorion gwaith chwarae yn dda, gan alluogi'r plant i arwain y chwarae. Gwelsom fod gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n wythnosol gyda themâu a oedd yn briodol i oedran y plant. Roedd y themâu yn ystyriol o ddiddordebau presennol y plant, y ffilmiau diweddaraf er enghraifft, ac roedd y plant yn cael eu cefnogi i gyfrannu syniadau wrth gynllunio'r gweithgareddau. Roedd y gwaith o gynllunio gweithgareddau'n hyblyg. Sicrhawyd fod yr aelodau staff yn cael eu dirprwyo'n addas ac ystyriwyd barn a hoffterau'r plant ar y diwrnod. Arddangosir y cynlluniau gweithgareddau newydd ar y drws a dywedodd yr aelodau staff wrthym fod rhai o'r plant yn mwynhau edrych i weld pa weithgareddau fyddai ar gael y diwrnod canlynol neu'n hwyrach yn yr wythnos cyn gadael. Roedd yr aelodau staff yn gweithredu trefn ddyddiol reolaidd yn y gwasanaeth ac roedd y plant yn gyfarwydd iawn â'r drefn. Cyfeiriodd llawer o'r plant at eu mwynhad o'r brechdanau tships bob dydd Gwener.

Mae'r aelodau staff yn creu cyfleoedd i'r plant ddewis a rheoli cynnwys y chwarae a dilyn eu diddordebau a'u syniadau eu hunain.

## 3. Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n ddiddorol a llawn mwynhad i'r plant. Maent yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn lân, sy'n galluogi'r plant i deimlo'n hyderus a mentro'n ofalus. Maent yn darparu amrywiaeth o offer chwarae tu mewn a thu allan sy'n addas i oed a chyfnod datblygu'r plant sy'n mynychu, ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda a glân.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau sy'n sicrhau fod yr amgylchedd yn addas a bod y plant yn parhau i fod yn ddiogel.

Roedd gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r angen i hybu diogelwch y plant gan fod asesiadau risg wedi eu hadolygu'n ddiweddar. Canfuwyd bod asesiadau risg yn bodoli ar gyfer offer megis y llwybr chwarae antur pren, ac roedd yr aelodau staff yn ymwybodol na ddylid caniatáu i blant o dan dair oed ddefnyddio'r offer hwnnw. Roedd y rhan fwyaf o'r man chwarae wedi ei gorchuddio gan orchudd llawr diogelwch glas a oedd yn golygu bod y perygl o anaf drwy faglu a syrthio wedi ei leihau wrth i'r plant redeg a chwarae. Roedd y man chwarae meddal wedi cael ei osod yn broffesiynol ac yn cael ei lanhau yn gyson. Canfuwyd bod y lle chwarae tu allan yn ddiogel ond hefyd yn cynnig modd o ddianc yn ddiogel pe byddai argyfwng tân. Gallai'r plant ddefnyddio pob rhan o'r adeilad ac roedd yr aelodau staff yn cael eu trefnu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod hyn yn gallu digwydd yn ddiogel. Roedd pob rhan o'r safle'n lân ac roedd y plant yn cael defnyddio cyfleusterau tai bach a oedd yn addas i'w hoedran.

Roedd arweinwyr yn adnabod bod angen cadw'r plant yn ddiogel ac yn hybu hynny'n briodol, yn ogystal â'r angen i alluogi'r plant i ddatblygu ac i ddeall risg.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn rhoi'r plant a'u hanghenion wrth graidd y gwasanaeth ac yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys yr offer addas i ddiwallu anghenion y plant.

Cynigiai'r adeilad pwrpasol ddigonedd o le i'r plant gymryd rhan yn y gwaith crefft, chwarae'n dawel neu fod yn fywiog heb darfu ar chwarae'r plant eraill. Roedd gwaith crefft y plant yn cael ei ddangos ar y waliau gan hybu ymdeimlad o berchnogaeth y plant ar yr ardal. Roedd yr amgylchedd wedi ei gynllunio i alluogi'r plant i ddewis chwarae yn annibynnol tu mewn neu tu allan gan fod dau ddrws yn arwain yn uniongyrchol o'r ystafelloedd chwarae i'r lle chwarae tu allan. Roedd tai bach o fewn cyrraedd hwylus i'r plant o'r lle chwarae allan a thŷ bach ychwanegol ar gael ar y llawr cyntaf pe byddai'r plant yn chwarae ar yr offer chwarae meddal tu mewn. Roedd y byrddau a'r cadeiriau a oedd ar gael o faint addas i'r plant a oedd yn mynychu, ac yn sicrhau eu bod yn gallu eistedd gyda'i gilydd yn gyffyrddus ar gyfer byrbrydau a gweithgareddau crefft. Mae digonedd o le i'r aelodau staff allu cynnal trafodaethau cyfrinachol gyda rhieni pe cyfyd yr angen. Mae'r holl

amgylchedd wedi ei gynllunio i gael ei ddefnyddio gan blant ac yn cynnig llefydd i blant eistedd gyda'i gilydd a chwarae. Er enghraifft, roedd yr wyneb gwaith cegin ar hyd ochr un o'r ystafelloedd yn cynnig lle i gadw gemau bwrdd, ond roedd hefyd o uchder addas i blant eistedd i chwarae gêm gyda'i gilydd.

Mae'r arweinwyr wedi cynllunio'r amgylchedd yn llwyddiannus er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau a chael hwyl.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Cynigia'r arweinwyr amrywiaeth eang o deganau, offer ac adnoddau sy'n apelio at blant ac yn eu diddanu.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod digon o deganau ac offer ar gael i'r gwasanaeth a oedd yn golygu bod gan y plant ddewis eang. Roedd lle i'r plant gael chwarae ar gonsol cyfrifiadur gyda'i gilydd ac ystafell ar wahân ar gyfer gweithgareddau crefft. Cedwid yr holl deganau ac offer yn ddiogel, ond o fewn cyrraedd y plant ar yr un pryd.  Mynegodd yr aelodau staff fod yn well ganddynt fod cynwysyddion storio llai yn cael eu prynu er mwyn eu galluogi i drefnu rhai teganau i gategorïau llai, er enghraifft, cedwir doliau Barbie, eu dillad a'u hoffer mewn un cynhwysydd mawr; rhannwyd yr adborth hwn â'r unigolyn cyfrifol er mwyn iddi gael ei ystyried. I fyny'r grisiau, roedd man chwarae meddal yn cynnig lle effeithiol i'r plant ddringo, neidio a bod yn gorfforol weithgar drwy'r flwyddyn. Siaradai'r plant yn frwdfrydig am y cyfleuster hwn, a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda, ond am ei bod yn dywydd braf roeddent yn dewis treulio eu hamser yn yr awyr agored. Y tu allan, roedd y plant yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleusterau ar gael, gan chwarae gyda bocsys cardfwrdd yn greadigol, sgipio gyda chylchynnau hwla a chwarae gemau ar y llwybr antur pren. Roedd yr holl deganau ac offer a oedd ar gael i'r plant mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol, a oedd yn cyfrannu at fwynhad y plant.

Yn ystod amser byrbryd nodwyd bod y plant yn yfed o gwpanau plastig, ac yn cael eu ffrwythau mewn powlenni plastig. Roedd y powlenni mwy eu maint wedi eu crafu a'u staenio ac angen eu hadnewyddu. Dylai arweinwyr ystyried adnewyddu cwpanau a phowlenni plastig am lestri sy'n hybu ymwybyddiaeth plant o gynaliadwyedd, ac yn datblygu eu profiadau pryd bwyd a'u sgiliau at y dyfodol.

Mae arweinwyr yn dewis adnoddau sy'n ysgogi ac yn cyfoethogi profiadau chwarae'r plant.

## 4. Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac mae ganddynt ymwybyddiaeth bendant o bwrpas. Maent yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol, yn canolbwyntio ar gyfoethogi deilliannau i'r plant ac yn blaenoriaethu'r hyn y dymunant ei wella yn y dyfodol. Maent yn rheoli'r aelodau staff yn weithredol ac yn rhan weledol a gweithredol o ddarparu'r gwasanaeth. Maent yn cydnabod ac yn rhoi canmoliaeth am gyfraniad aelodau staff wrth sicrhau deilliannau cadarnhaol i'r plant. Maent yn sicrhau bod adnoddau ac offer yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u hadnewyddu pan fydd angen. Mae gan yr arweinwyr berthynas ystyrlon â'r rhieni ac maent yn gweithredu'r gwasanaeth mewn modd pwrpasol sy'n diwallu eu hangen am ofal plant.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio'n effeithiol â'r Rheoliadau wrth ddarparu gweledigaeth am eu gwasanaeth yn llwyddiannus yn unol â'r yr hyn a amlinellir yn eu datganiad o ddiben.

Roedd gan arweinwyr weledigaeth bwrpasol ar gyfer eu gwasanaeth ac roedd y staff yn rhannu'r un weledigaeth. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben cywir sy'n disgrifio'r gwasanaeth fel yr oedd yn cael ei weithredu yn ystod ein harolygiad.  Mae'r arweinwyr yn drefnus, ac mae ganddynt ddull systematig o sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau, er enghraifft,  roedd cofnod yr ymarferion tân yn cofnodi pan oedd y gwiriad offer diogelwch tân diwethaf. Roedd y wybodaeth hon yn cyd-fynd â'r dystysgrif diogelwch tân a oedd wedi ei harddangos ar wal yr ystafell chwarae, gan dystio bod yr offer wedi ei wirio ym mis Ionawr 2018. Cedwir polisïau a gweithdrefnau dan adolygiad ac fe'u gweithredir yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau am hybu'r iaith Gymraeg, a chaiff yr aelodau staff eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol ym mhob sesiwn. Dylai'r arweinwyr ystyried gweithio tuag at y 'cynnig gweithredol' drwy ystyried hyn yn ystod unrhyw weithgaredd recriwtio, gyda'r nod o recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn gallu cynnig aelodau staff sy'n gallu siarad â'r plant yn eu hiaith gyntaf.

Mae'r arweinwyr yn gweithredu eu gwasanaeth yn effeithiol gyda phroffesiynoldeb a brwdfrydedd.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn adfyfyriol ac yn deall gwerth hunan-arfarnu a'r angen am welliant parhaus.

Mae'r arweinwyr yn cynnwys pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae ganddynt weithdrefnau ar waith i gael barn y rhieni, y plant a phobl broffesiynol eraill, gan gasglu'r amrywiol safbwyntiau hyn i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliannau parhaus. Mae'r arweinwyr yn annog adborth yn y fan a'r lle, ac mae'r rhieni a'r plant yn ymwybodol o'u presenoldeb yn y gwasanaeth fel y gallant ddod

atynt yn uniongyrchol os oes ganddynt unrhyw bryderon neu gwynion. Roedd rhieni a phlant yn hyderus y byddai eu pryderon yn cael eu datrys. Mae’r arweinwyr yn annog ymarferion adfyfyriol drwy ofyn i'r aelodau staff gwblhau taflen adfyfyrio ddyddiol. Mae’r daflen yn cofnodi adborth dyddiol gan blant ac aelodau staff ynglŷn â gweithgareddau'r diwrnod hwnnw, pa mor llwyddiannus y buont, ac os oedd angen unrhyw adnoddau ychwanegol. Gwerthfawrogir y wybodaeth a gesglir fel hyn gan arweinwyr, ac fe’i defnyddir yn gynhyrchiol i gyfrannu at gyfarfodydd staff wythnosol a chynllunio ar gyfer yr wythnos i ddod.

Mae gan yr arweinwyr ddull blaengar o gasglu adborth cyson am y gwasanaeth, ac maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i hybu gwelliant a gwneud newidiadau o wythnos i wythnos.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn llwyddiannus er mwyn diwallu anghenion y plant sy’n mynychu.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan yr aelodau staff rolau a chyfrifoldebau wedi’u diffinio’n glir, a’u bod yn gwybod yr hyn sy’n ddisgwyliedig ganddynt o fewn eu rôl. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o oriau wedi eu neilltuo i bob gweithiwr yn ei gontract er mwyn sicrhau bod y tîm yn gallu cwrdd yn wythnosol; i adfyfyrio ar ddigwyddiadau’r wythnos, ac i gynllunio ar gyfer yr wythnos ganlynol. Trefnir yr aelodau staff yn effeithiol, gyda phob un yn cael ei enwebu i arolygu rhan o’r gwasanaeth bob dydd. Canfuwyd bod y staff yn gweithio gyda’i gilydd yn hawdd ac yn gwybod beth oedd yn ddisgwyliedig ganddynt. Mae’r arweinwyr yn sicrhau fod yr holl aelodau staff yn gymwys gyda chymwysterau ‘Gweithiwr chwarae’ ac yn annog staff i ystyried datblygu eu cymwysterau cyfredol ymhellach. Roedd yn bleser clywed aelodau staff a oedd wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers dros 19 o flynyddoedd, yn disgrifio’n frwd yr effaith a gafodd cyflawni cymhwyster ‘Gweithiwr chwarae’ Lefel 3 ar eu gwaith. Roedd yr arweinwyr yn arwain drwy esiampl, gan sicrhau bod eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth eu hunain o egwyddorion chwarae yn gyfredol drwy gwblhau hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys Gwaith Chwarae.

Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi eu tîm o staff ac yn trefnu'r aelodau staff mewn modd sy’n gwneud y defnydd gorau o’u sgiliau ac yn cyflawni’r deilliannau gorau i’r plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae’r arweinwyr yn ffurfio partneriaethau effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plentyn.

Mae’r arweinwyr yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda'r rhieni, yr ysgolion lleol ac maent yn rhan weithredol o’r gymuned leol. Mae gwasanaeth casglu plant ar gael o bob un o’r ysgolion lleol, sy’n fanteisiol iawn o ran diwallu anghenion y rhieni. Mae dod â phlant o ysgolion gwahanol at ei gilydd o fudd i’r plant gan ei fod yn eu galluogi i wneud ffrindiau, a chyfoethogi eu profiad o gymdeithasu â phlant eraill o’r gymuned leol. Cawsom sgwrs â

rhiant a oedd wedi dod i nôl ei blentyn; roedd yn ganmoliaethus ynghylch y gwasanaeth ac yn teimlo bod y gwasanaeth yn diwallu ei anghenion yn llwyr. Mae’r arweinwyr yn manteisio i’r eithaf ar yr ardal leol, gan drefnu tripiau yn ystod y gwyliau i barciau lleol, y sw leol a glan y môr, a bu’r aelodau staff a’r plant yn siarad yn frwd am y tripiau. Gwyddai'r arweinwyr am gyrff proffesiynol eraill ac roedd ganddynt brofiad o sut i enyn eu cefnogaeth er mwyn diwallu angenion unigol y plant yn ôl yr angen.

Mae arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau posib o’r ardal leol ac yn darparu gwasanaeth sy’n cael ei werthfawrogi’n fawr yn y gymuned leol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell fod y darparwr yn;

- Ystyried newid cwpanau a phowlenni bwyd plastig a ddefnyddir ar hyn o bryd am lestri gwydr er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o gynaliadwyedd, ac i wella eu profiad pryd bwyd.

- Anelu at recriwtio aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn ystod unrhyw broses recriwtio yn y dyfodol er mwyn gallu cynnig staff sy'n gallu cyfathrebu â'r plant yn eu hiaith gyntaf.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arolygu arferol. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 7 Mehefin 2018 rhwng 12.40pm a 6.10pm. Cynhaliodd yr un arolygydd ymweliad dirybudd arall ar 3 Gorffennaf 2018 rhwng 3.15pm. ac 5.05pm

Gwnaethom y canlynol:

- Arolygu sampl o ddogfennau a pholisïau;
- Gwylio'r arferion ac arsylwi gydag offeryn SOFI2 i ddangos tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperid gan yr aelodau staff.
- Siarad â'r plant, rhiant a'r aelodau staff a oedd yn bresennol.
- Ystyried diogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd a'r adnoddau i'r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan www.cssiw.org.uk

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal tu allan i oriau ysgol** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Pauline Wilson** |
| **Person â gofal** | **Pauline Wilson**<br>**Matthew Wilson** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **70** |
| **Ystod oedran y plant** | **4 blwydd oed neu'n hŷn** |
| **Oriau agor** | **7.30am ar gyfer y clwb brecwast**<br>**3pm – 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener**<br>**7.30am – 6pm yn ystod gwyliau'r ysgol.** |
| **Iaith y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **18 Mawrth 2016** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hwn** | **7 Mehefin 2018 a 3 Gorffennaf 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ddim yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn** |
| **Ydy addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed yn cael ei darparu yn y gwasanaeth hwn?** | **Ddim yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Rydym yn argymell bod y darparwr yn ystyried *Strategaeth Olynol Mwy na Geiriau ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Gwasanaethau Cymdeithasol* gan Lywodraeth Cymru.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |